ichthus

CYLCHGRAWN CHWARTEROL EGLWYS BEREA NEWYDD, BANGOR
Rhif 2 Cyfrol 19 Ebrill 2022

Gofalaeth Ardal Bangor • 01248 353132 (swyddfa)

JERWSALEM YN FELIN

Clwb Capel Bethania yn ail-greu hanes Iesu o Sul y Blodau ymlaen

TREFNIADAU'R SUL

Gyda'r cyfyngiadau Covid wedi llacio ers diwedd Ebrill rydym yn parhau i gynnal oedfaon ym Merea Newydd ar foreau Sul. Gwnawn hynny gan ddilyn y canllawiau arferol ynghylch pellter cymdeithasol, hylendid ac awyru ond mae rhai'n dal i ymuno o'u catrefi ar Zoom ac wrth gwrs rydym yn croesawu'r ddwy gynulleidfa fel ei gilydd, yr un yn y capel a'r un ar y sgrîn. Mae'r oedfa ar y ffôn yn yr hwyr yn parhau hefyd: gweler isod. Dyma'r trefniadau isod ar gyfer y tri mis i ddod, hyd y gwyddom ar hyn o bryd. Os bydd unrhyw newid ynddynt byddwn yn siŵr o roi gwybod i chi. A byddwn yn parhau i wneud ein gorau i gadw mewn cysylltiad gyda'n holl aelodau a chyfeillion drwy e-bost, llythyr a ffôn er mwyn eich diweddaru fel bo'r angen.

GWASANAETHAU'R SUL
am 10am

Mai 1	Gweinidog
Mai 8	Robert Capon
Mai 15	Gweinidog
Mai 22	Llinos Roberts
Mai 29	
Mehefin 5	Gweinidog
Mehefin 12	Parch. Dafydd Andrew Jones
Mehefin 19	Gweinidog
Mehefin 26	
Gorffennaf 3	Gweinidog
Gorffennaf 10	Eleri Lloyd Jones
Gorffennaf 17	Gweinidog
Gorffennaf 24	Robert Morris
Gorffennaf 21	Parch. Eric Jones

BLAENOR Y PYTHEFNOS

Mai 1	Alwyn Lloyd Ellis
Mai 8	Gwyn Jones
Mai 15 a 22	Menna Baines
Mai 29	Gwyn Jones
Mehefin 5 a 12	Delyth Oswy
Mehefin 19 a 26	Gwenno Pritchard
Gorffennaf 3 a 10	Elin Walker Jones
Gorffennaf 17 a 24	Robat Roberts
Gorffennaf 31 ac Awst 7	Geraint Hughes

YR YSGOL SUL

Mae'n dda gallu dweud bod yr Ysgol Sul yn cyfarfod bob pythefnos ar hyn o bryd. Y dyddiadau nesaf fydd 1 a 15 Mai a 12 Mehefin, dyddiadau ar ôl hynny i'w cadarnhau.

OEDFA AR Y FFÔN

Rydym yn dal i gynnal yr oedfa ffôn bob prynhawn Sul am 5.30. Gallwch ymuno fel hyn:

- Deialu **0333 0164 757**
- Bydd llais yn eich croesawu i 'WhyPay' ac yn gofyn am eich 'room number followed by the hash key', sef: **29520135#**
- Yna bydd y llais yn gofyn am eich 'pin followed by the hash key', sef: **9653#**

E-BOST BOB SUL

Byddwn yn parhau i anfon e-bost bob Sul at yr aelodau hynny sydd wedi rhoi caniatâd i ni gysylltu â hwy drwy lenwi'r ffurflen Rheoliadau Cyffredinol Diogelwch Data (GDPR). Os nad ydych yn derbyn e-bost a myfyrdod y Sul anfonwch air, os gwelwch yn dda, at *elwyn.richards@ebcpcw.cymru*

GAIR GAN Y GWEINIDOG

Y PARCHEDIG ELWYN RICHARDS

Hyfryd eich cyfarch ar dudalennau *Ichthus*. Rydym yn ddyledus iawn i bawb a fu'n gweithio i'w ddwyn i olau dydd.

Yn ystod cyfnod y Pasg bu i ni glywed adrodd stori fawr y Ffydd unwaith eto, y stori sy'n dod i'w huchafbwynt efo'r Groes a'r Atgyfodiad. Newidiodd yn llwyr fywyd canlynwyr Iesu ar y pryd, ac yn wir, y mae wedi newid bywyd y byd byth oddi ar hynny. Drwyddi daeth argyhoeddiad newydd a gwahanol yn rhan o brofiad y ddynoliaeth. Yng ngeiriau W. Rhys Nicholas (C. Ff. 557):

Nid arglwyddiaetha angau mwy
ar deulu'r ffydd, gwaredir hwy;
y blaenffrwyth hardd yw Mab y Dyn,
mae'r bywyd ynddo ef ei hun:
rhown fawl ar gân i'r uchel Dduw,
mae Crist ein Pasg o hyd yn fyw.

Yn dilyn yr atgyfodiad gwelwn ddilynwyr Iesu yn y Testament Newydd yn ceisio dygymod â'u sefyllfa newydd. Argyhoeddwyd Mair Magdalen o gyfarfod y Crist atgyfodedig yn yr ardd, am nad oedd yn y cwmni pan ymwelodd Iesu â'i ddisgyblion cafodd Tomos anhawster mawr i gredu, a dim ond ar doriad y bara y gwnaeth y ddau ar y ffordd i Emaus ei adnabod. Ond o dipyn i beth, sefydlwyd y gred, a hynny ar sail tystiolaeth y llygad-dystion, fod Iesu Grist yn fyw.

Ceir stori, y dywedir ei bod yn tarddu o'r India, am griw o ddynion dall yn dod ar draws eliffant. Cydiodd y cyntaf yn ei drwnc a dweud ei fod yn anifail praff a chyhyrog fel neidr, gafaelodd un arall yn ei gynffon a dweud ei fod yn fain fel rhaff, rhoddodd un arall ei law ar ei fol a dweud ei fod mor gadarn â mur, a chydiodd un arall yn ei glust a dweud ei fod fel hwyl llong. Barn yr olaf oedd mai llyfn a chaled oedd yr eliffant, a hynny wedi iddo afael yn un o'i ysgithrau. Dywed y stori iddynt fynd i ffraeo â'i gilydd a phob un yn honni fod y lleill yn dweud celwydd, er eu bod oll, mewn gwirionedd, wedi eu camarwain gymaint â'i gilydd.

Efallai mai gwers y stori yw mai rhannol yw ein dirnadaeth ni i gyd o'r anweledig. Argyhoeddiad yr Efengyl, fodd bynnag, yw bod Duw wedi datguddio ei hun yn Iesu Grist, a'n gwahodd i'w adnabod fel Arglwydd yr Atgyfodiad a'r Bywyd.

Gweddi

A ninnau wedi dathlu'r Pasg, Arglwydd,
gofynnwn am dy arweiniad
er mwyn i ni drwy ddarllen yr ysgrythur
dy adnabod fel Tad ein Harglwydd Iesu Grist.
Cynorthwya ni i wrando dy eiriau,
a chredu dy addewidion,
a rhoi ein hunain i'th wasanaeth.

Dygwn ger dy fron fyd sy'n llawn ofn a dychryn a marwolaeth.
Gofynnwn am dy fendith ar bawb sy'n

byw yn sŵn rhyfel,
y rhai a gollodd gartrefi ac anwyliaid,
a'r rhai a orfodwyd i ddianc.
Ymgeledda hwy,
a dyro i'th eglwys a'th bobl
bob gras i'w cynorthwyo.

Cyflwynwn i ti bawb sy'n ceisio lliniaru poen a gofid,
y rhai a agorodd eu cartrefi i ddieithriaid,
fu'n casglu nwyddau ac yn cyfrannu arian,
fu'n pryderu, gobeithio a gweddïo,
ac a ymdrechodd i gyflawni dy ewyllys.
Boed bendith ar eu llafur
a boed i'w caredigrwydd gadw yn agored
borth gobaith a'r llwybr i gymod.

Ymbiliwn hefyd, Arglwydd, drosom ein hunain,
am i ti gryfhau ein ffydd a rhoi inni dy dangnefedd.
Bugeilia'r galarus,
cysura'r trist
a meddyginiaetha'r truan,
bydd gyda'r llesg a'r gwangalon
a dyro inni oll brofi dy gariad,
a derbyn dy ddiddanwch.
Gofynnwn hyn yn enw Iesu Grist, ein Harglwydd,
yr hwn yw'r Atgyfodiad a'r Bywyd.
Amen.

LLONGYFARCH BLAENOR A GWEINIDOG

Yn y Gymdeithasfa a gyfarfu ym Mhrestatyn ar 5 Ebrill llongyfarchwyd nifer o flaenoriaid oedd yn dathlu eu hordeiniad eleni. Yn eu plith yr oedd Mr Arfon H. Evans, Cae Garnedd (Penhower Uchaf gynt), sydd eleni yn dathlu trigain mlynedd fel blaenor. Hefyd llongyfarchwyd y Parchedig Cledwyn Williams, yntau yn dathlu trigain mlynedd yn y weinidogaeth. Dymuniadau gorau iddynt ill dau, a diolch am eu hymroddiad i'r Achos ar hyd y blynyddoedd.

GWEITHIWR NEWYDD

Llawenydd yw cyhoeddi bod Andrew Settatree wedi cychwyn ar ei waith yn ein plith ar 26 Ebrill. Penodwyd ef yn Gynorthwyydd Gweinidogaeth i weithio'n bennaf gyda'r plant a'r ieuenctid a'r teuluoedd. Diolch i athrawon yr ysgol Sul ym Merea Newydd, a'r Clwb Capel ym Methania, am barhau â'r gwaith dan amgylchiadau anodd yn ystod y misoedd diwethaf. Bellach edrychwn ymlaen at gael croesawu'r plant yn ôl i'r oedfaon wrth i'r pandemig gilio, a dychwelyd at batrymau mwy cyson o weithgarwch.

Gweler hefyd dudalen 8 lle mae Andrew Settatree yn dweud gair amdano'i hun.

SALM YN RHOI NERTH A CHYSUR I BOBL WCRÁIN

Y PARCHEDIG ATHRO JOHN TUDNO WILLIAMS

Wrth i Rwsia ddechrau ymosod ar y wlad gwahoddodd y Prif Rabbi, Yaakov Bleich, Gristnogion i ymuno ag Iddewon i weddïo Salm 31. Ar wefan Cymdeithas y Beiblau Wcráin gellir gweld a chlywed pobl y wlad o bob oedran yn adrodd y Salm hon o'r dechrau i'r diwedd.

Yr adnodau a gaiff sylw arbennig yw'r ddwy yma:
'Bendigedig yw'r Arglwydd a ddangosodd ei ffyddlondeb rhyfeddol tuag ataf mewn dinas warchaeedig' (ad.21)'
a 'Tro dy glust ataf, a brysia i'm gwaredu; bydd imi'n graig noddfa, yn amddiffynfa i'm cadw' (ad.2).

Dyddiad ac amgylchiadau cyfansoddi'r Salm
Mae'n anodd iawn lleoli'r Salmau mewn cyfnod arbennig. Ceir ambell i eithriad i hynny, e.e. Salm 137: 'Wrth afonydd Babilon yr oeddem yn eistedd ac yn wylo wrth inni gofio am Seion.' Yr Iddewon yn y Gaethglud sy'n amlwg yn adrodd y geiriau hyn.

Dylid ychwanegu nad yw'r cyflwyniadau a geir uwchben rhai Salmau ddim bob amser yn berthnasol i'w cynnwys, ac mae'n sicr iddynt gael eu hychwanegu'n ddiweddarach at destun y Salm. Salm i Ddafydd yw'r teitl uwchben hon; mae hynny'n nodweddiadol o bron y cyfan o'r deugain ac un Salm sy'n ffurfio Llyfr Cyntaf y Salmau. Mae teitl arall wrth ei ochr, sef 'I'r Cyfarwyddwr', ac mae'n debyg mai arweinydd y gerddoriaeth mewn act o addoliad a olygir.

Mae'n ddigon tebyg bod y Salm hon hefyd yn deillio o sefyllfa o gyfyngder i'r Iddewon yng nghyfnod y Gaethglud a'r blynyddoedd ar ôl hynny oherwydd mae'n adleisio un o hoff ymadroddion y proffwyd Jeremeia:
'Y mae dychryn ar bob llaw' (ad.13).

Roedd Jeremia gyda'r olaf o'r proffwydi yn union cyn cwymp Jerwsalem i'r Babiloniaid a ddinistriodd deml yr Iddewon.

Nodweddion y Salm
Mae'n Salm gyfoethog ac yn cwmpasu amryw o nodweddion Llyfr y Salmau, ac mae ymadroddion ynddi sy'n adleisio Salmau eraill:
e.e. mae'n dechrau gyda gweddi (adn.1–5);
yna mae'n mynegi ymddiriedaeth yn Nuw (adn.6–8);
ceir galarnad yn adn.9–13: yn wir, myn rhai ysgolheigion alw'r rhan fwyaf ohoni'n alarnad.

Yn union wedyn mynegir ymddiriedaeth eto yn Nuw:
'Ond yr wyf yn ymddiried ynot ti, Arglwydd, ac yn dweud, "Ti yw fy Nuw"' (ad.14).

Dilynir hyn gan weddi arall (adn.15–18), sy'n cychwyn gyda geiriau cyfarwydd a ddefnyddiodd Nantlais yn ei emyn:
'Y mae fy amserau yn dy law di' (ad.15).
Neilltuir gweddill y Salm i fynegi diolchgarwch i Dduw am waredigaeth o gyfyngderau bywyd (adn.19–24).

Ni fydd y ffordd ymlaen o angenrheidrwydd yn rhwydd a hawdd, ond oherwydd daioni Duw yn y gorffennol gelwir ar bobl i ymddiried yn ei gyfiawnder gan fod 'yn gryf a gwrol' (ad.24).
Fel llawer o'r Salmau mynegir ynddi deimladau, dyheadau, a phryderon unigolion mewn ffordd bersonol iawn, ac ar yr un pryd ymdeimlir â phresenoldeb cymuned a chenedl sy'n rhannu'r un profiadau.

Cofiwn i Iesu ei hun yn awr ei ing ar y groes ddefnyddio geiriau'r salmydd hwn:
'I'th ddwylo di yr wyf yn cyflwyno fy ysbryd' (ad.5: gw. Luc 23.46).
Fel ef, mynega pobl Wcráin eu hymddiriedaeth yn ffyddlondeb Duw a'i gariad di-ffael:
'Llawenychaf a gorfoleddaf yn dy ffyddlondeb, oherwydd iti edrych ar fy adfyd a rhoi sylw imi yn fy nghyfyngder' (ad.7).

Trewir nodyn o fawl a hyder a bendith ar ddiwedd y Salm gyfoethog hon.

CODI ARIAN

Yn ystod mis Ebrill bu llawer o godi arian a chasglu nwyddau ar gyfer pobl Wcráin sydd wedi dioddef mor enbyd oherwydd y rhyfel. Diolch i bawb a gyfrannodd at y casgliad ym Merea Newydd a Bethlehem, Abergwyngregyn. Codwyd £755 ym Merea a £177.50 ym Methlehem. Diolch hefyd i bawb a gefnogodd alwad Pobl i Bobl am gymorth.

Yn ystod gweddill y flwyddyn byddwn hefyd yn codi arian tuag at Apêl 5 mlynedd Eglwys Bresbyteraidd Cymru a Chymorth Cristnogol fydd yn helpu pobl sy'n dioddef o achos effeithiau newid hinsawdd.

Canolbwyntir yn gyntaf ar weithgarwch sydd eisoes yn digwydd yn Kenya, ac fel rhan o'r Apêl byddwn yn croesawu y Parchedig T. Evan Morgan, Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, i ymuno gydag eglwysi'r Henaduriaeth ar daith gerdded, a hynny wedi'r oedfa ar fore Sul, 8 Mai.

DYMA FANYLION Y DAITH GERDDED:

Tyd am dro co!

Cwrdd yn y maes parcio dan Morrisons, Caernarfon, am 11.30 y bore. Cerdded ar hyd y lôn beics i gyfeiriad hen safle Ferodo hyd at y bont ger Griffiths Crossing, ac yna yn ôl a rownd Galeri at y llechen sy'n coffáu taith heddwch menywod 1926, lle cawn gyfle i aros a gweddïo, cyn mynd ymlaen i Seilo lle bydd cwpanaid o gawl i bawb. 5k union – croeso i bawb.

BEDYDDIO CASI

Yn dilyn oedfa'r bore ar Sul cyntaf Ebrill llawenydd oedd cael bedydd ym Merea Newydd. Casi, merch Aled a Tina Owen o Lôn Ogwen, Maestryfan, Bangor, oedd yn cael ei bedyddio a hynny gan ein cyn-weinidog, y Parch Eric Jones. Hefyd yn y llun efo nhw mae Cian, brawd mawr Casi.

DYDDIADUR

MAI
Sul 8, 11.30 TAITH GERDDED NODDEDIG LLYWYDD Y GYMANFA GYFFREDINOL, Y PARCH EVAN T. MORGAN
Cychwyn o'r maes parcio dan Morrisons, Caernarfon
Manylion ar dudalen 6

Llun 16, 12.30 CINIO CYNNIL
Berea Newydd
Rhan o Wythnos Cymorth Cristnogol (15–21 Mai)
Mawrth 17, 9.45 ymlaen FFORWM FFYDD: GOBAITH Y CRISTION
Seilo, Llandudno
Manylion ar dudalen 13

GAIR GAN EIN SWYDDOG NEWYDD

ANDREW SETTATREE

Mae Andrew Settatree, ein Cynorthwyydd Gweinidogaeth newydd, bellach wedi cychwyn yn ei swydd. Bydd yn canolbwyntio'n bennaf ar waith gyda'r plant a'r ieuenctid a'r teuluoedd, a gobeithiwn y bydd yn hapus iawn yn ein plith. Dyma air gan Andrew amdano'i hun.

Fy enw ydy Andrew Settatree. Tyfais i fyny ar dyddyn y tu allan i Hwlffordd, Sir Benfro, yn wreiddiol, felly hogyn y wlad ydw i go iawn! Mae gen i ddwy chwaer ac un brawd. Ar ôl gorffen fy Lefel A yn Ysgol Tasker Milward, Hwlffordd, treuliais flwyddyn Gap yn gweithio ac yn gwneud gwaith cenhadol yn Uganda. Yn dilyn hyn bûm am dair blynedd ym Mhrifysgol Caerdydd yn hyfforddi fel nyrs. Ar ôl gweithio am ddwy flynedd yng Nghaerdydd ac Awstralia cefais fy ngalw yn 2008 i fod yn Weithiwr Plant ac Ieuenctid i Gynllun Efe ym Mro'r Eco, yn cydweithio â chapeli'r ardal i gyflwyno neges achubol Iesu Grist i blant ac ieuenctid y cylch drwy sefydlu clybiau ieuenctid, ymweld ag ysgolion, trefnu digwyddiadau cenhadol yn ogystal â mynd â'r plant ac ieuenctid i Goleg y Bala yn aml iawn. Yn ogystal â hyn gweithiais am ddwy flynedd i Gynllun Trobwynt yn Llŷn ac Eifionydd yn gwneud gwaith tebyg. Yna yn 2016 cefais fy mhenodi'n Gynorthwyydd Gweinidogaethol yn Ardal Dwyfor, yn cael mwy o brofiad yn pregethu o gwmpas y capeli, gwneud gwaith bugeiliol a gwneud gwaith plant ar ben yr hyn ro'n i'n ei wneud o'r blaen.

Cefais fy magu mewn teulu Cristnogol oedd yn aelodau brwd o eglwysi lleol, ond a dweud y gwir, am gyfnod hir doeddwn i ddim yn mwynhau mynd i gapel. Fodd bynnag, newidiodd hynny pan symudon ni i eglwys newydd a hynny pan oeddwn yn 14 oed. Yn wahanol i'r eglwysi eraill y bues i'n rhan ohonyn nhw, roedd yr eglwys hon yn gwneud ymdrech go iawn i gynnwys plant ac ieuenctid ym mhob agwedd o'i bywyd. Bues i'n aelod brwd o'r Clwb Ieuenctid a chefais gyfle i ddarganfod fy noniau wrth helpu gyda'r ysgol Sul, y gwaith ysgolion a bod yn rhan o'r timoedd cenhadaeth draeth yr oedd yr eglwys yn eu trefnu. Ond er fy mod i'n aelod brwd o weithgareddau'r eglwys, doeddwn i ddim wir yn adnabod Iesu fy hun. Newidiodd hyn pan dderbyniais Feibl yn 15 oed ac wrth imi ei ddarllen agorodd Duw fy llygaid i weld faint o bechadur oeddwn i ond hefyd faint yr oedd o wedi maddau i mi drwy waith Iesu ar y groes, heb i hynny fod yn seiliedig o gwbl ar fy ymdrech fy hun. Ers hynny mae fy nhaith ffydd wedi bod yn ychydig bach o *rollercoaster* ond dim ots pa mor dda neu ddrwg dwi'n gwneud, dwi'n gwybod fod ei gariad a'i ras tuag ata i yr un fath. Yr adnod sy'n fy nghynnal o hyd yw geiriau Paul wrth Timotheus:

'Mae beth sy'n cael ei ddweud mor wir, a dylai pawb ei gredu: Daeth y Meseia Iesu

i'r byd i achub pechaduriaid – a fi ydy'r gwaetha ohonyn nhw.' (1 Timotheus 1:15) Rwyf yn byw yng Nghaeathro ac rwy'n briod â Hev ers tair blynedd bellach. Rwyf yn hoff iawn o ddilyn a chymryd rhan mewn chwaraeon, yn enwedig cerdded a phadl-fyrddio ar Lyn Padarn. Rydyn ni ar fin mabwysiadu plentyn dwyflwydd a fydd yn antur gyffrous iawn heb os! Yr wyf fi a Hev yn edrych ymlaen yn fawr iawn at gydweithio gyda chi er mwyn helpu plant, ieuenctid a theuluoedd i dyfu fel disgyblion yn ein gofalaeth ni, gyda nerth yr Arglwydd.

Teimlwch yn rhydd i alw heibio'r Capel yn ystod y dydd i gael panad a sgwrs,

Andrew gyda Hev, ei wraig

byddwn i wrth fy modd yn cael dod i'ch adnabod yn well.

CADAIR I TOMOS

Un o aelodau ifanc Berea Newydd gipiodd y Gadair yn yr Eisteddfod Ryng-golegol oedd yn cael ei chynnal eleni ym Mangor.

Mae Tomos Lynch ar ei flwyddyn olaf yn Aberystwyth yn astudio Cymraeg a Gwleidyddiaeth Ryngwladol. Wrth roi ei ymateb i'r achlysur dywedodd, "Braf oedd cael ennill y Gadair adra ym Mangor. Ond brafiach byth oedd rhwystro fy nghyfaill Twm, a enillodd y Goron ac a ddaeth yn ail am y Gadair, rhag gwneud y dwbwl!"

Osian Owen o'r Felinheli – bardd a *wnaeth* lwyddo i 'wneud y dwbwl' yn y Ryng-gol yn 2018 – oedd yn beirniadu a dyfarnodd mai cerdd Tomos oedd yr orau mewn cystadleuaeth o safon uchel gyda 31 wedi

Llun: Ifan James

ymgeisio. Cerdd ar y testun 'Degawd' oedd hi ac mae i'w gweld ar wefan Golwg360.

COFIO AM BOBOL WCRÁIN AR SUL Y BLODAU

Roedd oedfa Sul y Blodau ym Merea Newydd yn un arbennig eleni am fwy nag un rheswm. Yn un peth, roedd hi'n oedfa deuluol gyda rhai o blant ac ieuenctid yr Ysgol Sul yn cymryd rhan – y tro cyntaf iddynt gael ymuno mewn oedfa yn y capel ers dros ddwy flynedd yn sgil y pandemig. At hynny, roedd hi'n oedfa i gofio am bobol Wcráin yng nghanol y rhyfel dychrynllyd sydd wedi bod yn y wlad ers i Rwsia ddechrau ymosod arni ddiwedd Chwefror.

Cawsom ein hatgoffa am daith Iesu i mewn i Jerwsalem ar Sul y Blodau ar gefn ebol asyn ac fel y bu iddo ddod yno'n fawr ei groeso ond fel yr oedd pawb wedi anghofio am hynny cyn pen wythnos wrth i lawer o'r un bobol weiddi am ei waed. Fe ddaeth Iesu i Jerwsalem fel tywysog tangnefedd, ond casineb torfol ac nid ysbryd heddwch fyddai'n teyrnasu erbyn diwedd yr wythnos.

Trowyd sylw wedyn at y ffordd yr oedd neges heddwch wedi ei hanghofio mewn sawl rhan o'r byd heddiw ac roedd ail ran y gwasanaeth yn gyfle i weddïo dros bawb sy'n dioddef yn sgil rhyfel Wcráin gan gynnwys y miliynau o ffoaduriaid sydd



wedi gadael y wlad. Cawsom ein hatgoffa o gysylltiadau hanesyddol rhwng Cymru ac Wcráin ac yna rhoddwyd cyfle i bawb ysgrifennu gweddïau personol dros Wcráin. Cyn diwedd y gwasanaeth rhoddwyd y gweddïau i fyny yn y cyntedd ar ben baner Wcráin ochr yn ochr â'r lluniau blodau haul papur yr oedd plant yr Ysgol Sul wedi'u gosod yno'n barod. Blodyn haul yw blodyn cenedlaethol y wlad a chafodd pawb ychydig o hadau'r blodyn i fynd adref i'w plannu, yn symbol o'n deisyfiad a'n gobaith am heddwch i'r wlad.

HELFA BASG CLWB CAPEL BETHANIA

Rydym wedi cadw cyswllt gyda theuluoedd y Clwb Capel yn ystod y pandemig ond mae wedi bod yn anodd cynnal sesiynau. Roedd pawb yn gytûn ar y syniad o gynnal sesiwn awyr agored, felly fe drefnwyd Helfa Basg.

Daethom ynghyd, yn blant o dair i dair ar ddeg mlwydd oed ac oedolion, ger y berllan gymunedol ar Lôn Las Menai. I ddathlu'r Pasg, roedd gweithgareddau i'n hatgoffa o hanes Iesu o Sul y Blodau ymlaen. I gychwyn, croesawyd 'Iesu' i Jerwsalem gyda phawb yn chwifio dail a gweiddi 'Hosanna!' Yna, roedd angen dod o hyd i ddwsin o wyau plastig gydag enwau'r disgyblion oddi mewn. Bu'r plant ieuengaf yn casglu llythrennau i greu'r enw Jerwsalem a bu dau dîm yn cystadlu i ddewis yr atebion cywir i Gwis y Pasg.

Roedd pawb wedi mwynhau ac yn falch iawn o gael dod ynghyd unwaith eto. I orffen, roedd Helfa Wyau Pasg.

FFORWM FFYDD
(UNDEB ATHROFA'R BALA GYNT)
Seilo, Llandudno, Mai 17 – GOBAITH Y CRISTION

PAM Y THEMA GOBAITH?
Penderfynwyd ar y thema Gobaith y Cristion wedi i'r diweddar Barchedig Ddr Elfed ap Nefydd Roberts ein hatgoffa yn 2019 ein bod yn dathlu 55 mlynedd ers cyhoeddi cyfrol y diwinydd o'r Almaen, Jurgen Moltman, *Theology of Hope* Oherwydd y pandemig bu'n rhaid gohirio'r gynhadledd ddwywaith, hyd eleni. Erbyn hyn sylweddolwn fod cyflwr enbyd ein byd a'n gwlad yn tanlinellu'r angen am obaith, a hynny yn fwy nag erioed.

BETH FYDD RHAGLEN Y GYNHADLEDD?
Cynhelir hon yn Eglwys Unedig Seilo, Llandudno, ddydd Mawrth, 17 Mai.
9.45am Defosiwn
10.00am Sesiwn 1
Gobaith ac Iaith a Diwylliant
Dr Ruth Richards – Prif Weithredwr Dyfodol i'r Iaith
Trafodaeth Agored
11.15–11.40am Paned
11.45am Sesiwn 2
Gobaith ac Iechyd Meddwl
Dr Elin Ellis Jones – Ymgynghorydd Seiciatryddol Ysbyty Aneurin Bevan
Trafodaeth Agored
Cinio (Trefniant Personol)
2:30pm Sesiwn 3
Gobaith a'r Eglwys
Y Parch Beti Wyn James – Gweinidog Gofalaeth Y Priordy, Caerfyrddin
Trafodaeth Agored

GWAHODDIAD I BAWB
Cynhadledd ar gyfer Gweinidogion Presbyteraidd oedd hon yn y gorffennol, ac fe'i galwyd yn Undeb Athrofa'r Bala oherwydd mai yn hen Goleg y Bala yr hyfforddid gweinidogion, ac yno yn 1909 y ffurfiwyd yr Undeb. Ystyriwyd y gynhadledd fel Hyfforddiant Mewn Swydd, megis, i weinidogion yr enwad.
Erbyn hyn agorwyd y pyrth led y pen *i weinidogion a lleygwyr o bob enwad,* ac fe'i gelwir yn Fforwm Ffydd. Dyma gyfle i ni ddyfnhau ein dealltwriaeth o Ffydd wrth inni wynebu heriau mawr ein cyfnod.

DEWCH YN LLU, ac os ydych angen cludiant neu fwy o wybodaeth, cysylltwch gyda mi ar 01248 362127 neu *ericaval@btinternet.com*

"Gobaith fo'n meistr: rhoed Amser inni'n was"
(Waldo Williams)

Eric Jones

DYMA'R MANYLION AR GYFER CYFRANNU TUAG AT Y CAPEL:
Enw'r cyfrif: Capel Berea Newydd
Banc: HSBC Côd: 40-09-03 Rhif y cyfrif: 51584928
Trysorydd: Mrs Cynthia Owen, 14 Lôn y Meillion, Bangor, LL57 2LE

SLAVA UKRAINI!

ANN CORKETT

Mae un o'n haelodau wedi dechrau dysgu Wcreineg er mwyn helpu'r ffoaduriaid pan ddônt i'r ardal.

Ydych chi'n gyfarwydd â'r symbol Cristnogol sy'n debyg i'r priflythyrennau *X* a *P*, y naill ar ben y llall? Ei enw yw'r *Chi-ro* (dywedwch 'cai-ro'). Nid *X* a *P* yw'r llythrennau; ond llythrennau Groeg yn cyfateb i *Ch* ac *R* yn Gymraeg, ac yn llythrennau cyntaf *Christus*. Ac yn awr rydych chi ar eich ffordd i ddysgu'r wyddor Wcreineg hefyd!

Bron yn ddamweiniol y dechreuais i ddysgu'r iaith. Ers peth amser bûm yn dilyn cwrs Sbaeneg ar y We trwy Duolingo. Bob wythnos, caf fy ngosod mewn grŵp o ddysgwyr o'r un lefel, a chaf ddewis symbol i'w osod yn erbyn f'enw, o restr sy'n cynnwys baner Sbaen (a diddorol yw gweld faint o bobl sy'n defnyddio Draig Goch Cymru). Penderfynais gael cip ar iaith Wcráin, a chael dangos ei baner glas a melyn – ac i ffwrdd â fi.

I gychwyn, mae angen ymgynefino â'r wyddor ac ynganiad y llythrennau. Hen enw'r Cymry ar iaith y Saeson oedd *Iaith yr 'S'*, oherwydd yr holl amrywiaeth o synau *s*-aidd. Mae *s*, *j* a *z* yn llythrennau ar wahân, ond mae nifer o synau a gynrychiolir gan gyfuniad o lythrennau, fel yn *shame*, *rouge* a *change* (dau yma!). Dim ond *s* syml oedd gan yr hen Gymry. Mae gan Wcreineg hefyd amrywiaeth o synau *s*, gan gynnwys *shch*, ond mae i bob un ei llythyren ei hun.

Dechreua'r cwrs gyda llythrennau cyfarwydd mewn brawddegau megis *mama a tato* (mam a dad), gan gyflwyno llythrennau newydd yn eu tro. Un o'r cyntaf yw'r *d*, sydd yn rhywbeth yn debyg i driongl. I ddweud *Ydy'r mêl yno?* y cyfan sydd ei angen ydy *Med tam? (Mêl yno?)*. Ceir digon o gyfle i ymarfer, er bod rhaid gwrando'n astud. Fe'i cefais yn anodd iawn, nes i rywbeth glicio'n sydyn ar ôl rhai dyddiau. Rhaid ymgynefino â'r wyddor fel hyn cyn symud ymlaen at y cyfarchion y bydd eu hangen yn fuan mewn unrhyw berthynas.

Fy hoff frawddeg hyd yn hyn yw *Dim tam, de kit*. Y cyfieithiad llythrennol yw *cartref/adeilad yno, ble cath*, neu *lle bo cath, mae cartref*. Mae'n gwneud imi feddwl am y lluniau a welwn o ffoaduriaid yn cario eu cathod a'u cŵn efo nhw.

Mae'n frawddeg sy'n cynnig patrwm ar gyfer llawer o frawddegau eraill, ond yn anffodus, ni fydd *Tato tam, de mama* ddim yn wir am lawer o famau a phlant ar ffo.

Mae Duolingo ar gael ar gyfrifiadur, neu fel ap ar ffôn. Mae modd talu am fersiwn mwy soffistigedig, heb hysbysebion. Bydd hyn yn cefnogi'n ariannol wasanaeth sy'n cynnig dwsinau o ieithoedd, ond mae'r fersiwn am ddim yn berffaith foddhaol. Mae grŵp Facebook lle gall *Duolingo Ukranian Learners* drafod profiadau a phroblemau. Hefyd mae'r

gyfres *Teach Yourself* yn cynnig *Complete Ukranian ebook + audio* am ddim *(library.teachyourself.com).* Gwelaf o drafodaethau grŵp *Iaith ar Facebook* fod nifer o Gymry Cymraeg yn dysgu'r iaith er mwyn helpu ffoaduriaid.

A chofiwch, ffoaduriaid, nid mewnfudwyr, yw'r rhain. Eu gobaith yw dychwelyd i'w gwlad eu hunain pan ddaw dyddiau gwell. Cafodd pum mil o blant Guernsey ddychwelyd i'r ynys ar ôl pum mlynedd gyda theuluoedd yn Lloegr yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Ond roedden nhw wedi colli'r iaith Guernesiais. Trwy ddysgu hyd yn oed ychydig o Wcreineg, gallech helpu ffoaduriaid i ymdopi mewn cymdeithas Saesneg neu Gymraeg. Gobeithio, trwy ddangos parch at Wcreineg a diddordeb ynddi, gallech hefyd gyfrannu at gynnal yr iaith ymhlith eu plant.

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL

JOHN WYNN JONES

Ydi, coeliwch neu beidio, mae hi bron yr adeg honno o'r flwyddyn eto, wythnos Cymorth Cristnogol, sef y drydedd wythnos ym mis Mai. Eleni byddwn yn canolbwyntio ar effaith newid hinsawdd a'r hyn mae hynny'n ei olygu i bobol yn Zimbabwe yn benodol.

Mae'n arferol bod rhai aelodau yn mynd o gwmpas yn holi ar stepan drws a ydi trigolion ardaloedd Bangor yn dymuno cyfrannu tuag at Gymorth Cristnogol. Fel un o'r trefnyddion, efo Astra Thomas, rydym wedi bod yn methu gyrru ein casglwyr o gwmpas yn y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd cyfyngiadau Covid. Ond er hynny mae'r helarian wedi parhau mewn dulliau oedd yn dderbyniol o dan y rheolau Covid.

Eleni rydym am geisio ailafael yn yr arfer o gael Cinio Cynnil yn y Festri ar bnawn Llun yr wythnos, sef 16 Mai, gan wneud hynny mewn modd diogel.

Diolch hefyd i Margaret Jones, Y Berllan, Ffordd Penrhos, sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i Gymorth Cristnogol trwy werthu cardiau, cacennau a cherrig addurniedig ers tua chwe mis bellach.

Bellach y teimlad yw nad yw cnocio drysau y ffordd orau i gasglu at yr achos. Felly, fel llynedd, bydd pob aelod eleni yn cael amlen goch fel y gallant gyfrannu, ac os dymunwch gael amlenni ychwanegol i roi i gymdogion y gwyddoch eu bod yn gefnogol i'r achos, yna fe sicrhawn eich bod yn derbyn yr amlenni. Os hoffech i rywun gasglu'r amlenni gennych, cysylltwch ag un o'r Blaenoriaid ac fe drefnwn fod hynny'n digwydd.

Cewch wybod am yr holl bethau fydd yn digwydd yn ystod yr wythnos yn y cyhoeddiadau a hefyd wrth gwrs yn y bwletin wythnosol gan ein Gweinidog.

TRYDYDD TEITHIWR Y TRYDYDD DYDD

DR BRUCE GRIFFITHS

Rhaid mai'r Daith i Emaus, pan ymddangosodd yr Iesu i ddau ddilynwr noson Sul y Pasg, yw un o hanesion mwyaf poblogaidd y Testament Newydd (gw. Luc XXIV). Mae gan Ann gof o dri Sul yn olynol pan gawsom bregeth arni gan bregethwr gwadd, y gweinidog ac wedyn pregethwr gwadd arall. Ddydd Sul y Pasg eleni, bûm i ac Ann yng Nghapel Gad Newydd, Bodffordd, Ynys Môn, a chlywed pregeth Mrs Ann Lewis ar yr un hanes.

Digwyddiad bythgofiadwy! Ond a fu'n

Altobello Melone, 'Y Ffordd i Emaus', c.1516-17

hollol heb ei debyg? Daeth i'm cof hanes a glywais tua 1975 gan gyfaill geirwir, Will Davenant o Lundain. Bu'n aelod pybyr o Sefydliad Achub Mynydd Dyffryn Ogwen. Daethai'r achubwyr i ystyried bod angen ymarfer â cherdded llethrau'r mynyddoedd pan *na fyddai'n dywydd braf,* gan mai mewn drycin, gan amlaf, y gelwid hwy i achub mynyddwyr. Felly aeth dyrnaid ati, ond dechreuodd hi dywyllu nes y tybiwyd na ellid cyrraedd pen y mynydd, a dyma droi'n ôl; ond fe ddaeth i fwrw eira. Ni fyddent yn cyrraedd yr A5 mewn pryd. Dyma newid bwriad ac anelu am gysgodfan arbennig ar gyfer mynyddwyr, yn nes at y copa. Ond yn y tywyllwch ni ellid gweld dim i'w ddilyn – ac eithrio olion traed rhywun y gwelid ei gysgod yn y pellter. Buwyd yn ei ddilyn ac yn galw ar ei ôl, ond nid atebodd nac aros. Felly dyna ddilyn ôl ei draed, meddai Will, nes cyrraedd y gysgodfan, lle peidiodd yr ôl traed. Ni fu golwg ar yr arweinydd – pwy bynnag ydoedd. "Buom yn y cwt trwy'r nos, heb gysgu chwinc" meddai Will wrthyf.

Ni chafwyd esboniad ar y digwyddiad hwn, ond nid yw'n hanes unigryw. Trown at *The Waste Land,* gerdd enwog T. S. Eliot, sy'n disgrifio taith trwy'r Tir Diffaith, a gwelwn ll. 359–365:

Who is the third who walks always
beside you?
When I count, there are only you and I
together
But when I look ahead up the white road
There is always another one walking
beside you
Gliding wrapt in a brown mantle, hooded
I do not know whether a man or a woman
– But who is that on the other side of you?

Yn ei nodiadau dywed Eliot mai hanes taith Shackleton ar draws yr Antarctig a symbylodd hyn – adroddiad bod y criw o deithwyr blinedig dan yr argraff bod gyda hwy rywun arall na ellid mo'i gyfrif. Yn wir, nid dyna'r unig hanesyn o dystiolaeth dringwyr a fu mewn ofn a pherygl. (Gweler llyfr John G. Geiger, *The Third Man Factor* (2009). Ynddo, awgrymir mai rhyw flinder yn yr ymennydd sy'n achosi hyn, ond nid oes raid i ni gredinwyr ddilyn yr esboniad hwn yn ddieithriad!)

Mae hanes y daith i Emaus yn awgrymu llawer mwy na *theimlad bod rhywun arall gerllaw.* Gwyddwn pwy oedd y trydydd ar y ffordd i Emaus, ond pwy ddaeth i dywys Will a'i gyfeillion ar y mynydd?

O.N. Fel y dywed Saunders Lewis yn ei gerdd *Emmäws,* 'Ddaw neb o hyd iddo'n awr .../ ... Emmäws nad yw mwyach'. Efallai mai lle o fewn tair milltir i Jerwsalem ydoedd.

gwybodaeth

Cenn@d
Mae papur newydd wedi ei greu ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru a'r Bedyddwyr. Mae *Cenn@d* yn ymddangos ar-lein bob wythnos yn rhad ac am ddim, mewn lliw llawn. Bydd y ddolen i *Cenn@d* yn cael ei hanfon at bawb oedd ar restr e-byst *Y Goleuad* ac rydym yn ei chynnwys hefyd yn yr e-bost wythnosol i aelodau Berea Newydd a Bethania.

Y PASG YM MANGOR

DELYTH OSWY

Ar ôl saib o ddwy flynedd roedd actorion Cytûn yn ôl ar Stryd Fawr Bangor yn ail-greu golygfeydd Dydd Gwener y Groglith – arestio Crist yng Ngardd Gethsemane; y dorf yn gweiddi am ryddhau Barabas, a Pilat yn golchi ei ddwylo o'r cyfan; yna croeshoelio Iesu gan filwyr Rhufeinig – o flaen yr hen Debenhams! Ar fore Sul y Pasg wedyn daeth criw ynghyd ar ben y Camp Rhufeinig am 7 y bore. Gyda chlychau'r gog yn garped yn y goedwig, a'r haul yn disgleirio dros y Gogarth a throsodd i gopaon Eryri a dinas Bangor, roedd yn brofiad gwefreiddiol. Wedi myfyrdod ac emyn aethom i festri Capel Penrallt (yr hen Tŵrgwyn) am baned a brechdan bacwn. Braf oedd sgwrsio gyda gwahanol rai – Cymraes o Lundain ar ymweliad â'i rhieni; Sbaenes a ymgartrefodd ym Mangor; myfyriwr o Indonesia a'i gyfaill o Taiwan – pobl o bob cefndir a chyfandir wedi uno i ddathlu'r Pasg.

LLOYDS BANK